# Pwyllgor Adnoddau Dynol
# (Cyfarfod Eithriadol)

## 8 Chwefror 2023

**Yn Bresennol** : Mrs J James (Dirprwy Gadeirydd yn y Gadair)
Cynghorydd Mrs D Clements, Dr R Heath-Davies, Mr GA Jones, Cynghorydd R Jordan, Cynghorydd PJ Morgan a’r Cynghorydd A Wilcox.

(Swyddfa’r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 2.00pm – 3.00pm)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Dr S Hancock a'r Cynghorydd M James.

**2. Datgan Buddiannau**
Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant.

**3. Eithrio’r Cyhoedd**
**Penderfynwyd** eithrio’r cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y’i diffinnir ym Mharagraffau 12 a 15 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn cael ei datgelu**.**

**4. Diweddariad ar Newidiadau Staff**
Cyflwynodd y Prif Weithredwr gynigion diwygiedig yn seiliedig ar y newidiadau i Adnoddau Dynol, y Gwasanaethau Democrataidd a rheoli’r swyddfa yn Llanion. Bu’r Aelodau yn trafod y cynnig ac yn ystyried materion megis y Gymraeg a Llywodraethu Gwybodaeth, cyn cytuno ar y newidiadau arfaethedig.

**Penderfynwyd dirprwyo i’r Prif Weithredwr y gwaith o roi’r newidiadau a ganlyn mewn grym, yn amodol ar yr ymgynghori gofynnol â’r staff:**

- **Penodi Pennaeth Pobl;**
- **Penodi Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, fyddai'n atebol i'r Pennaeth Pobl;**
- **Penodi Rheolwr Gwasanaethau Llanion i reoli’r dderbynfa yn Llanion a’r gofalwyr ac yn atebol i'r Pennaeth Datgarboneiddio.**

**Fodd bynnag, pe bai gwrth-gynigion sylweddol yn dod i law, yna byddai'r mater yn cael ei ddychwelyd i'r Pwyllgor AD i'w ystyried.**

Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o’r Pwyllgor Adnoddau Dynol a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2023 heb eu diwygio.